At swyddogion cyfrifol y cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau TGAU yng Nghymru

01/11/2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Diwygio'r cwricwlwm a chymwysterau yng Nghymru

Rydym yn ysgrifennu at bob corff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau TGAU yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn nodi ein cynlluniau ar gyfer ystyried goblygiadau'r cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru i gymwysterau a astudir gan blant 14 i 16 oed.

Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Gallwch ddarllen mwy am y ffordd y mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu ar wefan Llywodraeth Cymru. Bwriedir cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer pob disgybl hyd at flwyddyn 7 ym mis Medi 2022, ac iar gyfer pob myfyriwr hyd at flwyddyn 11 erbyn mis Medi 2027. Ceir rhagor o fanylion yn yr amserlen lefel uchel atodedig.

Er mwyn helpu gyda'r diwygiadau hyn, byddem yn gwerthfawrogi cyfranogiad a chyfraniad cyrff dyfarnu yn y gwaith cyn gynted ag y bo modd. I'r perwyl hwnnw, rydym yn gwahodd cyrff dyfarnu i fynegi diddordeb mewn gweithio gyda ni i ddatblygu cynigion ar gyfer cyfres newydd o gymwysterau TGAU i Gymru. Er mwyn esbonio ein cynlluniau a'r hyn y byddai cyfranogi yn ei olygu ar y cam cynnar hwn, hoffem drefnu cyfarfod â chi cyn diwedd y flwyddyn.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod y cymwysterau sydd ar gael i blant 16 oed yng Nghymru, ar ddiwedd eu haddysg statudol, wedi'u llunio i ddiwallu eu hanghenion a chefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn disgwyl y bydd angen datblygu ystod newydd o gymwysterau cymeradwy i ddiweddaru a disodli'r cymwysterau TGAU presennol.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Ni fyddwn yn gwybod i ba raddau y bydd angen i'r cymwysterau newydd fod yn wahanol i'r cymwysterau TGAU presennol nes i'r cwricwlwm newydd gael ei gwblhau. Llywodraeth Cynru fydd yn penderfynu ar deitlau unrhyw gymwysterau newydd, yn ogystal â'r amrywiaeth o bynciau sydd eu hangen. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd y cymwysterau newydd yr un mor heriol â'r TGAU presennol. Hefyd, bydd angen cymwysterau dwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn gwneud ymchwil ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ymgynghori ar ddibenion y cymwysterau newydd, yr amrywiaeth o bynciau y dylient eu cwmpasu a'u cynllun lefel uchel. Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y penderfyniadau cyffredinol hyn, byddwn yn symud ymlaen i ddatblygu'r meini prawf cymeradwyo manwl ar gyfer pob cymhwyster newydd. Er mwyn sicrhau y darperir y cymwysterau newydd sydd eu hangen, ar hyn o bryd nid ydym yn bwriadu defnyddio ein pwerau i gyfyngu ar y farchnad na chynnal ymarfer caffael i sicrhau corff dyfarnu. Mae hyn oherwydd ein bod yn disgwyl ymateb ar hyn o bryd gan y farchnad i'r meini prawf cymeradwyo rydym yn eu datblygu ar gyfer y cymwysterau newydd. Byddwn yn parhau i adolygu hyn. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried manylion ein dull rheoleiddio o reoli'r ffordd y caiff y cymwysterau newydd eu darparu gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig.

Er mwyn sicrhau bod cyfres gydlynol o gymwysterau ar gael, byddwn yn gofyn i unrhyw gorff dyfarnu sy'n ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cymwysterau newydd gynnig y gyfres gyfan o gymwysterau sydd eu hangen, neu ran sylweddol ohoni, ac barhau i gynnig y ddarpariaeth hon dros oes y cymhwyster. Bwriad y dull hwn o weithredu yw sicrhau y darperir cymwysterau sy'n debygol o ddenu llai o fyfyrwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n sicr o fod yn boblogaidd.

Bydd cynnwys cyrff dyfarnu yn gynnar yn y gwaith hwn yn ein helpu i lywio a mireinio ein dull gweithredu. Er mwyn trefnu cyfarfod i drafod ein cynlluniau a'n disgwyliadau yn fanylach, cysylltwch â laura.evans@qualificationswales.org.

Er mwyn helpu i esbonio ein dull gweithredu, byddwn ni'n cyhoeddi copi o'r llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

Philip Blaker
Prif Weithredwr


Work with curriculum pioneers and others to consider how qualifications could support the new curriculum
Consult on :
- Purpose and role of qualifications
- Range of subjects to be offered
- High-level design principles
Welsh Government and Qualifications Wales confirm decisions on future qualifications offer
Co-construct and consult on detailed design proposals for individual qualifications
New qualifications approved
Training and resources are developed
New qualifications taught in schools
2018
2019
2020
2021
2022
2025
Gweithio gydag arloeswyr y cwricwlwm ac eraill i ystyried sut all cymwysterau gefnogi'r cwricwlwm newydd
Ymgynghori ar:
- Ddiben a rôl cymwysterau
- Ystod o bynciau fydd ar gael
- Egwyddorion dylunio lefel-uchel
Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn cadarnhau penderfyniadau am y cymwysterau caiff eu cynnig yn y dyfodol.
Cyd-adeiladu ac ymgynghori ar gynlluniau cymwysterau unigol.
Cymwysterau newydd wedi eu cymeradwyo
Hyfforddiant ac adnoddau yn cael eu datblygu
Cymwysterau yn cael eu darparu gan ysgolion.